



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**CANLLAWIAU RHEOLI ARIANNOL  
TEULUOEDD YN GYNTAF  
2017-18**

**Ebrill 2017**

## **Rhagair**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol am reolaeth ariannol a gwariant priodol mewn perthynas â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost at gyfeiriad e-bost Teuluoedd yn Gyntaf - [familiesfirst@wales.gsi.gov.uk](mailto:familiesfirst@wales.gsi.gov.uk) gan nodi **Rheoli Ariannol Teuluoedd yn Gyntaf** yn glir fel pennawd.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefniadau ariannol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Dylech sicrhau bod trefniadau cytundebol a'r canllawiau cysylltiedig priodol ar waith i gefnogi eich cydberthynas eich hun â'r darparwyr a gomisiynwyd gennych i ddarparu eich prosiectau/gwasanaethau. Gellir defnyddio'r wybodaeth yn y ddogfen hon fel sail ar gyfer y trefniadau hynny. Dylech sicrhau bod darparwyr trydydd parti yn ymwybodol o'r terfynau amser perthnasol a bennir gan Lywodraeth Cymru a'u bod yn cyflwyno gwybodaeth briodol i chi mewn da bryd er mwyn i chi fodloni'r terfynau amser a bennwyd.

Yn ogystal ag ystyried y canllawiau yn y ddogfen hon, dylech hefyd sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r darpariaethau yn eich Llythyr Dyfarnu Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf.

Caiff templedi proffilio a hawliadau eu hanfon ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, a dylid eu dychwelyd erbyn y dyddiad a nodir ar dab ariannol yr Adroddiad Cynnydd perthnasol.

Penodwyd Rheolwr Cyfrif o'r tîm Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae Rheolwyr Cyfrif yn gyfrifol am roi adborth ar gynlluniau a chynghori awdurdodau lleol pan fo cynlluniau wedi'u cymeradwyo. Bydd eich Rheolwr Cyfrif yn cysylltu â chi'n rheolaidd ac yn ymweld â chi drwy gydol y flwyddyn i drafod cynnydd a'r broses o weithredu eich cynllun. Y Rheolwr Cyfrif yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau anarferol nad ydynt yn ymwneud â hawliadau ariannol. Bydd angen i chi gysylltu â'ch Rheolwr Cyfrif i drafod newidiadau i'ch cynllun fel yr amlinellir yn y ddogfen ganllaw hon. Nodir manylion cyswllt Rheolwyr Cyfrif a'r Tîm Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf yn atodiad 1.

Mae'n bosibl y byddwn yn diwygio'r ddogfen hon o bryd i'w gilydd mewn ymateb i faterion sydd wedi codi ers cyhoeddi'r fersiwn blaenorol. Byddwn yn rhoi gwybod i'r awdurdodau lleol pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud, a byddwn yn eich cyfeirio at y newidiadau priodol.

# Cynnwys

**Adran:**

**1. Pwrpas y Grant**

**2. Proffilio Cyllidebol:**

- Proffilio
- Tanwario arian
- Trosglwyddo arian
- Trosglwyddo arian rhwng Rhaglenni Cymunedau a Threchu Tlodi
- Ffocws ar Anabledd - Efen Arian a Neilltuir

**3. Y Broses Hawlio**

- Y broses hawlio
- Cyflwyno ffurflenni hawlio a phroffilio
- Awdurdod ariannol dynodedig

**4. Gofynion Archwilio:**

- Talu ffioedd archwilio

**5. Gwariant a Chaffael Trydydd Parti**

- Gwariant trydydd parti
- Caffael

**6. Gofynion Statudol**

**7. Arian cyfatebol ar gyfer Prosiectau Ewropeaidd a Chyd-ariannu Prosiectau:**

- Arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop
- Ariannu prosiectau ar y cyd

**8. Defnyddio Cyllid Refeniw ar gyfer Gwariant Cyfalaf**

- Caledwedd/meddalwedd TG
- Gweithgareddau'n ymwneud ag adeiladau/tir/seilwaith

**9. Costau Staff (gan gynnwys cyngor ar faterion mamolaeth/tadolaeth):**

- Swyddi presennol
- Swyddi newydd

**10. Dileu Swyddi**

- Defnyddio Arian Teuluoedd yn Gyntaf i dalu costau dileu swyddi
- Trefniadau trydydd parti - costau dileu swyddi

**11. Rhent**

**12. Gwasanaethau Adrannau Awdurdodau Lleol Eraill**

### **13. Costau'n ymwneud â'r Prosiect**

#### **ATODIADAU**

- 1. Manylion Cyswllt Rheolwyr Cyfrif a Thîm Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf**
- 2. Rheolwr Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf**

## **1. Pwrpas y Grant**

Mae arian Teuluoedd yn Gyntaf ar gael i awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn iddynt fynd ati i gyflawni dibenion y Rhaglen fel y'i disgrifir yn y Canllawiau ar gyfer y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'n rhaid defnyddio'r arian fel y'i hamlinellir yn eich Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf a gymeradwywyd.

## **2. Llunio Proffil o'r Gyllideb**

### **Llunio Proffil**

Bydd angen i chi gyflwyno proffil cyllidol o gyfanswm y gwariant Teuluoedd yn Gyntaf a ragwelir cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn y bydd angen gwneud hynny fel arfer. Dylid cyflwyno proffil arall sy'n ystyried y gwariant hyd yma ac sydd naill ai'n diwygio neu'n cadarnhau'r gwariant a ragwelir ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol, tua diwedd mis Medi. Dylai'r wybodaeth yn y proffiliau fod yn gyson â'r manylion yn eich Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf a gymeradwywyd.

Dylid nodi; er y bydd nifer y ffurflenni hawlio a monitro y bydd angen ichi eu cyflwyno'n llai, dylech barhau i fonitro gwariant a pherfformiad bob chwarter.

Pe byddai diwygiad arfaethedig i'r proffil yn ystod y flwyddyn yn golygu y byddai unrhyw gyfansymiau chwarterol a nodwyd yn flaenorol yn cynyddu neu'n gostwng 10% neu fwy, dylech drafod hyn ymlaen llaw gyda'ch Rheolwr Cyfrif Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Dylai'r diwygiad arfaethedig gael ei gymeradwyo gan y Rheolwr Cyfrif cyn iddo gael ei weithredu.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynghylch pryd y dylid rhoi gwybod am broffil diwygiedig gan eich Rheolwr Cyfrif Teuluoedd yn Gyntaf, neu'r Tîm Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf.

Wrth lunio eich proffil, dylech sicrhau eich bod yn nodi amseriad eich taliadau arfaethedig i unrhyw sefydliadau trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau. Yn yr un modd, dylech sicrhau, o ran unrhyw daliadau a wnewch i sefydliadau trydydd parti, mai dim ond y symiau yr aethpwyd iddynt yn y chwarter priodol a hawli'r gennyh.

Gofalwch ein bod yn rhagweld eich gwariant yn gywir gan y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi inni i lunio'r proffil ein hunain i wneud cais am arian o San Steffan. Gallai gwaith proffilio anghywir arwain at sefyllfa lle mae Llywodraeth Cymru yn methu cyflawni ei hymrwymadau ariannol i chi.

Dylech fod yn ymwybodol bod Proffiliau Cyllidebol a Gwariant Gwirioneddol Awdurdodau Lleol ar gael i'w gweld o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a gellid eu cyhoeddi fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i lywodraeth agored a thryloyw.

### **Tanwario arian**

Dylech roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl os ydych yn credu ei bod yn debygol y byddwch yn tanwario eich dyraniad blynyddol, oherwydd swydd wag er enghraifft, neu bod y costau gwirioneddol yn llai na'r costau a ragwelwyd. Drwy roi gwybod i ni yn gynnar, gall yr arian gael ei ddefnyddio at ddiben arall o fewn eich gweithgarwch Teuluoedd yn Gyntaf neu gael ei ddychwelyd i gronfa ganolog Teuluoedd yn Gyntaf i'w ddefnyddio yn rhywle arall.

## Trosglwyddo arian rhwng prosiectau

Wrth i chi roi'ch Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf ar waith, efallai y gwelwch fod angen trosglwyddo arian rhwng y gwahanol benawdau gwariant.

Gallwch wneud trosglwyddiadau bach rhwng y penawdau prosiect yn ôl eich disgresiwn cyn belled nad yw'r newidiadau hyn yn fwy na 10% neu £100,000 (pa un bynnag sydd isaf) o gyfanswm y prosiect. Gallwch wneud trosglwyddiadau yn ôl eich disgresiwn o hyd at gyfanswm o £100,000 o fewn y flwyddyn. (Er enghraifft 5 trosglwyddiad o £20k neu un trosglwyddiad gwerth £100k). Mae'n rhaid i drosglwyddiadau ychwanegol dros £100,000 gael eu cymeradwyo gan reolwr eich cyfrif.

Os dymunwch drosglwyddo arian o un prosiect i brosiect arall, a bod y swm hwnnw'n fwy na 10% o werth y pennawd neu'n fwy na'r terfyn blynyddol o £100,000, yna dylech wneud cais ffurfiol drwy e-bost at eich Rheolwr Cyfrif Teuluoedd yn Gyntaf yn gofyn am y newid.

Ni ddylech chi a'ch sefydliad partner gytuno ar drosglwyddiadau rhwng llinellau cyllidebol yr un prosiect oni bai eich bod yn gallu bod yn sicr na fydd y canlyniad y cytunwyd arno ar gyfer y prosiect yn cael ei effeithio. Gofynnwch i'r Rheolwr Cyfrif os oes angen eglurhad arnoch am faterion penodol.

Os credir y bydd y trosglwyddiad yn cael effaith sylweddol ar gyfeiriad neu weithrediad y rhaglen yna bydd gan Lywodraeth Cymru hawl i wrthod y newidiadau y gofynnir amdanynt.

Rhowch wybod inni cyn gynted ag y gwelwch fod angen newid proffil y gyllideb. Cofiwch amgáu esboniad am y newid ac o effaith y newid ar y potensial i wario'r dyraniad llawn.

Dyma enghreifftiau o newid arwyddocaol:

- ychwanegiad arfaethedig i weithgaredd sy'n gysylltiedig â grant
- dod â gweithgaredd sy'n gysylltiedig â grant i ben
- trosglwyddo 10% neu £100,000 (pa un bynnag fydd leiaf) rhwng gwahanol brosiectau o fewn eich cyllideb Teuluoedd yn Gyntaf.
- trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn sy'n werth mwy na £100,000

Byddwn yn falch o'r cyfle i drafod y newidiadau â chi.

Os ydych yn bwriadu cyflwyno prosiect newydd ar ôl i'ch Cynllun Gweithredu gael ei gymeradwyo, dylech geisio cymeradwyaeth gan eich Rheolwr Cyfrif Teuluoedd yn Gyntaf cyn dechrau'r broses gomisiynu.

## Trosglwyddiadau rhwng Cyllidebau Cymunedau a Threchu Tlodi

Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno bod modd trosglwyddo 5% o gyllidebau rhaglenni rhwng Rhaglenni Trechu Tlodi (Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chefnogi Pobl) os yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â hynny. Gellir gwneud ceisiadau i drosglwyddo cyllid rhwng rhaglenni o 1 Hydref a 30 Tachwedd bob blwyddyn. Rhaid cyflwyno'r ceisiadau hyn drwy'r Rheolwr Cyfrifon ar y ffurflen gais sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth

Cymru yn edrych ar bob cais ar sail ei rinweddau ac yn rhoi gwybod i chi beth y mae wedi'i benderfynu cyn gynted ag y bo modd.

## **Ffocws ar Anabledd - Efen Arian a Neilltuir**

Mae arian ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i roi ffocws penodol ar anabledd ac anghenion teuluoedd â phlant a phobl ifanc anabl. Dylech sicrhau bod eich proffil yn dangos yn glir sut rydych yn bwriadu dyrannu'r arian ychwanegol hwn. Yn yr un modd, dylech nodi'n glir sut rydych wedi defnyddio'r arian hwn ar y ffurflen dadansoddi gwariant pan fyddwch yn cyflwyno eich hawliadau.

### **3. Y Broses Hawlio**

#### **Y Broses Hawlio**

Dylid gwneud hawliadau Teuluoedd yn Gyntaf ym mis Gorffennaf a Ionawr. Bydd angen Adroddiad Cynnydd terfynol ym mis Ebrill yn cadarnhau gwariant gwirioneddol am y flwyddyn.

Bydd Adroddiad Cynnydd Gorffennaf ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill hyd 30 Mehefin a chaiff y taliad ei wneud fel ôl-daliad. Dylid cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect a'r data cysylltiedig gyda'r adroddiad hwn. Caiff Adroddiad Cynnydd anghyflawn ei wrthod ac ni chaiff yr hawliad ei gofrestru.

Dylai Adroddiad Cynnydd mis Ionawr ddangos y gwariant gwirioneddol a data allbwn ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf tan 31 Rhagfyr - hefyd y gwariant a amcangyfrifir ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr tan 31 Mawrth. Bydd eich taliad terfynol yn seiliedig ar y ffurflen hon, ac rydym yn annog pob awdurdod lleol i or-amcangyfrif eu gwariant ar gyfer y chwarter olaf, oherwydd na fydd mod i ni ad-dalu unrhyw ddiffygion ar ôl 31 Mawrth.

Dylai'r Adroddiad Cynnydd terfynol sydd i'w gyflwyno ddiwedd mis Ebrill gadarnhau gwariant gwirioneddol y flwyddyn ariannol flaenorol. Rydym yn deall ei bod yn bosibl na fydd awdurdodau lleol wedi cau eu cyfriflyfr erbyn diwedd Ebrill ac mai amcangyfrif fydd y gwariant gwirioneddol. Nid yw hyn yn reswm dros ddal eich cais yn ôl a dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod eich ffurflen mor gywir â phosibl. Nid oes angen darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect na data cysylltiedig gyda'r ffurflen hon.

Caiff yr amserlen hawlio ei nodi yn eich llythyr Dyfarnu Cyllid a gyhoeddir ym mis Mawrth bob blwyddyn. Bydd hon yr un fath â'r calendr terfynau amser a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y mis Ionawr blaenorol. Dim ond mewn perthynas â'r gwariant yr aethpwyd iddo ac a dalwyd ym mhob cyfnod hawlio penodol y dylid hawlio. Os na allwch hawlio gwariant yn y chwarter y'i talwyd, dylech ei hawlio yn y cyfnod nesaf. Dylech gronni'r cyllid grant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf os ydych wedi comisiynu ac wedi derbyn gwasanaethau neu nwyddau ond heb dalu amdanynt eto yn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae'n rhaid i daliadau cronol fod yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol gywir a dylid cadw tystiolaeth i gefnogi hyn.

Os yw'ch gwariant gwirioneddol am y flwyddyn yn llai na'r grant yr ydym wedi'i dalu ichi, fe wnawn addasiad i adlewyrchu hyn ar ôl ichi gyflwyno'ch datganiad alldro (gweler Gofynion

Archwilio) ac fe adenillwn unrhyw ordaliadau. Nodwch fod yr anfonebau sy'n adfer unrhyw arian grant na wariwyd yn daladwy yn syth ar ôl eu derbyn ac nid oes cyfnod gras o 28 diwrnod. Os ydych wedi rhoi amcan rhy isel o swm y gwariant a fydd yn cael ei wneud ar ôl y dyddiad cyflwyno ni fyddwn yn gallu addasu ar gyfer hyn yn ddiweddarach.

Pan fyddwch yn cyflwyno eich cais dylech roi eglurhad clir pam fod gwahaniaeth rhwng y proffil a'r gwariant gwirioneddol. Bydd Rheolwyr Cyfrif yn holi ynghylch unrhyw gyfansymiau chwarterol a hawliwyd sy'n dangos cynnydd neu ostyngiad o 10% neu fwy o gymharu â'ch proffiliau ariannol. Gweler Adran 2.1 (Proffilio) uchod.

Dylid cyflwyno tystiolaeth ategol gyda'r Adroddiad Cynnydd i ddangos bod y swm a hawliwyd wedi'i wario'n gywir ar weithgareddau a nodwyd yn eich Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r ddogfennaeth hon yn cynnwys:

- dadansoddiad manwl o'r hyn a wariwyd yn y cyfnod hawlio; ac
- adroddiad cynnydd ar weithrediad eich Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf (caiff y templed ei anfon atoch maes o law).

Dylech gytuno ar y categorïau gwariant sydd i'w cynnwys yn y proffil ariannol gyda Rheolwr eich Cyfrif cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

Dylid defnyddio'r ffurflen proffil ariannol (Tabiau 'Hawliad 1' ac 'Hawliad 2' o'r Adroddiad Cynnydd) i nodi sut y mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf. Dylech ddangos manylion y costau ar gyfer yr adran Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd/ Tîm o Amgylch y Teulu ac unrhyw brosiect sydd wedi'i gaffael o fewn eich awdurdod lleol, e.e. costau rheoli prosiectau, costau staff eraill. Ar gyfer yr adran Prosiect Strategol a'r prosiectau Anabledd (dim ond lle rydych wedi caffael gwasanaeth gan drydydd parti), dim ond y cyfanswm a dalwyd iddynt o ganlyniad i'r ymarfer caffael y mae angen i chi ei gynnwys. Nid oes angen i chi roi manylion sut y byddant yn gwario'r arian. Os yw'r trydydd parti wedi is-gontractio, dylid cynnwys y cyfanswm a dalwyd i'r is-gontractwr yn y dadansoddiad hefyd. Unwaith eto, nid oes angen darparu dadansoddiad o sut y bydd y corff hwnnw yn defnyddio'r arian.

Dylech wneud ceisiadau i gyflwyno Adroddiadau Cynnydd yn hwyr i Dîm Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf yn ysgrifenedig a dylent gynnwys eglurhad o ran pam na allwch fodloni'r terfyn amser. Ystyrir ceisiadau yn ôl eu haeddiant, ond mae'n bosibl y bydd taliad yn cael ei ohirio hyd at 2 fis.

## **Cyflwyno ffurflenni hawlio a phroffilio**

Er mwyn i chi allu bodloni'r amserlen ar gyfer cyflwyno hawliadau, byddai'n fuddiol i chi sicrhau bod unrhyw drydydd parti yn ymwybodol o ddarpariaethau'r ddogfen ganllaw hon, gan gynnwys y terfynau amser amrywiol.

Dylid cyflwyno dogfennau mewn fformat electronig (taenlen Excel). Er mwyn osgoi gorfod darparu copi caled (papur), gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon yr Adroddiad Cynnydd o gyfeiriad e-bost y Rheolwr Prosiect a nodir yn llythyr y Dyfarniad Cyllid gan na fydd angen llofnod felly. Os byddwch yn sganio llofnod dylech sicrhau eich bod yn cadw cofnod o'r awdurdodiad ar gyfer sganio pob llofnod, a bod yr awdurdodiad hwnnw ar gael at ddibenion



archwilio. Os nad yw'r Rheolwr Prosiect ar gael i anfon yr Adroddiad Cynnydd, dylai'r dirprwy ei anfon a chopio e-byst i gyfeiriad e-bost y Rheolwr Prosiect gan osod llofnod electronig y person priodol sydd ag awdurdod ddirprwyedig i lofnodi ar ran yr awdurdod lleol.

Dylid cyflwyno copiâu electronig o'r ffurflen dadansoddi gwariant a'r ffurflen proffil fel taenlenni Excel ac nid fel fersiynau PDF, gan y byddwn yn cysylltu eich gwybodaeth chi â'n dogfennau ein hunain.

Gallwch gyflwyno fersiwn PDF **yn ychwanegol at** y taenlenni uchod os dymunwch.

Mae'r terfynau amser ar gyfer ffeilio hawliadau Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu pennu ymhell ymlaen llaw a sicrhair bod adnoddau digonol gan dimau rheoli Teuluoedd yn Gyntaf, gyda chyfran sylweddol o arian y rhaglen wedi'i neilltuo. Felly ni ddylai fod rheswm dros fethu'r dyddiadau olaf ar gyfer ffeilio. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i dimau rheoli Teuluoedd yn Gyntaf weithredu'n broffesiynol, i ysgwyddo'u hymrwymiaid adrodd o dan eu contract o ddifrif a rheoli eu timau i sicrhau eu bod yn gallu gwneud y gwaith mewn pryd. Os ydych yn teimlo bod eich tîm yn brin o adnoddau, trafodwch eich sefyllfa gyda Rheolwr eich Cyfrif.

## **Awdurdod Ariannol Dynodedig**

Rhowch enw'r Awdurdod Ariannol Dynodedig a ddylai awdurdodi eich gwariant i ni. Os bydd enw'r Awdurdod hwnnw yn newid, dylech roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl. Yn unol â'r angen i gadw dyletswyddau ar wahân, ni ddylai'r awdurdod dynodedig gael unrhyw gysylltiad â'ch rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf o ddydd i ddydd.

Gall methiant i ddilyn y weithdrefn hon arwain at oedi wrth ystyried eich hawliad.

## **4. Gofynion Archwilio**

Dylech gwblhau datganiad alldro, wedi'i ardystio gan Brif Swyddog Ariannol eich awdurdod lleol, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Dylech gyflwyno gopi o'r datganiad alldro ardystiedig i'r tîm Teuluoedd yn Gyntaf erbyn 30 Medi ar ôl y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Byddwn yn rhoi gwybod beth yw enw a manylion cyswllt yr archwilydd cyn gynted ag y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu'r wybodaeth hon i dîm cyllid Llywodraeth Cymru, a dylech anfon y datganiad alldro gwreiddiol at y person hwn.

Mae'r archwilydd yn profi er mwyn gwneud asesiad teg o'r costau sy'n gysylltiedig â'r grant. Felly rhaid i'r Awdurdod Lleol ddangos bod yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r grant yn wariant cymwys. Bydd yr Asesiad Risg a Phrofi a gynhelir gan yr archwiliwr yn cynnwys asesiad o:

- Risg o ran rheoli'r rhaglen
- Trefniadau rheoli
- A yw'r gwariant yn gymwys
- Ansawdd tystiolaeth ddogfennol
- Arbenigedd staff y rhaglen
- Integreiddio gyda gwaith arall
- Trefniadau archwilio mewnol

Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno archwiliadau'r awdurdod lleol i dîm cyllid Teuluoedd yn Gyntaf ddim hwyrach na 31 Rhagfyr.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gofynion hyn yn eich llythyr Dyfarnu Cyllid Grant Teuluoedd yn Gyntaf.

Ni chaniateir i Awdurdodau Lleol ddefnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf i dalu ffioedd archwilio. Dim ond ar y gweithgaredd a gynorthwyr y dylid gwario arian Grant Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn caniatáu i sefydliadau'r trydydd sector hawlio ffioedd archwilio dan egwyddor o Adennill Costau Llawn fel yr amlinellir yn ei 'Gynllun Trydydd Sector'. Nid yw awdurdodau lleol yn cael eu rhwymo gan 'Gynllun Trydydd Sector' Llywodraeth Cymru, ond byddem yn annog awdurdodau lleol i ddilyn yr egwyddor adfer costau llawn mewn perthynas â sefydliadau trydydd sector.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn adolygu statws ffioedd archwilio fel cyllid cymwys ar gyfer Awdurdodau Lleol o fewn rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyflwyno yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18.

## **5. Gwariant a Chaffael Trydydd Parti**

### **Gwariant Trydydd Parti**

Fel y corff atebol, rydych yn gyfrifol am sicrhau bod arian Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo gwariant yn cael ei ysgwyddo neu grantiau'n cael eu talu i ddarparwyr trydydd parti (gan gynnwys adrannau eraill o fewn yr Awdurdod Lleol) dan drefniant cyfreithlon (Memorandwm o Ddealltwriaeth, Cytundeb Cydweithio neu contractau eraill sy'n rhwymo'n ôl y gyfraith) a wnaed gyda'r Awdurdod Lleol dan gynllun grant Cymunedau yn Gyntaf. Nodwch nad yw Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn rhwymo'n ôl y gyfraith, a dylid eu defnyddio rhwng adrannau'r awdurdod lleol yn unig yn hytrach na gyda chyrrff allanol.

Chi sydd hefyd yn gyfrifol am fonitro statws ariannol y sefydliadau a ariennir gan drydydd parti (er enghraifft diffygion yn y cyfrifon incwm a gwariant, gostyngiad sylweddol yng ngwerth yr asedau, neu broblemau llif arian) a chymryd camau priodol i ddiogelu'r cyllid a ddarperir drwy grant Teuluoedd yn Gyntaf.

Er mwyn cwblhau ac ardystio hawliadau yn gywir, rhaid i chi gael systemau a gweithdrefnau mewnol priodol i fodloni eich hun, eich archwilwyr a thîm Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru mai dim ond gwariant cymwys sydd wedi'i gynnwys yn yr hawliad, ac yn y datganiad alldro gwariant. Gallai'r trefniadau hyn gynnwys:

- trefniadau cywir i atal a chanfod twyll neu gamgymeriad
- cael datganiadau a ardystiwyd yn annibynnol gan drydydd parti'n sy'n cadarnhau bod y gwariant yn gymwys
- system monitro taliadau yn ystod y flwyddyn (wedi'i hategu gan brif gofnodion priodol, megis swydd-ddisgrifiadau neu amserlenni gwaith lle bo'n briodol)
- system ar gyfer hapwrio cofnodion trydydd parti'n.

Dylid ystyried y dull priodol i'w ddefnyddio fesul achos yn ôl natur, nifer a gwerth y trafodion â phartneriaid unigol. Dylech ddilyn eich rheoliadau eich hun a chynnal asesiadau risg priodol wrth dalu sefydliadau trydydd parti, gan gofio bod angen cynnal trywydd archwilio clir. Bydd eich dull o reoli gwariant trydydd parti yn cael ei werthuso fel rhan o archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r archwilydd yn gwneud profion i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol wedi gwneud 'asesiad teg o'r costau sy'n cael eu priodoli i'r grant'. Felly rhaid i'r Awdurdod Lleol ddangos bod yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r grant yn wariant cymwys. Os nad oes amserlenni gwaith yn cael eu cadw neu system rheoli amser yn weithredol, a bod yr archwilwyr am gael rhagor o wybodaeth er mwyn cadarnhau bod y cyflogau'n rhesymol, gallant gyfeirio at y dystiolaeth ganlynol:

- y cynllun cyflawni blynyddol ac unrhyw waith prisio a wnaed ar ei gyfer;
- strwythurau staffio;
- swydd-ddisgrifiadau ac i bwy mae unigolion yn atebol neu bwy sy'n cael eu goruchwyllo;
- calendrau/dyddiaduron;
- cofnodion cyfarfodydd;
- lefel cyfranogaeth mewn partneriaeth fusnes;
- esboniadau ar lafar;
- hawliadau teithio a chynhaliadau;
- awduraeth o (neu gyfraniadau at/gwaith ar) gynlluniau, monitro a chynnydd;
- adroddiadau a gwerthusiadau;
- gwybodaeth am unrhyw faterion lleol penodol sydd wedi gofyn am sylw'r rheolwyr yn ystod y flwyddyn;
- unrhyw gyfnodau o absenoldeb tymor hir (megis salwch, absenoldeb rhiant, secondiad, seibiant gyrfa)

## **Caffael**

Dylech ddilyn gweithdrefnau caffael eich awdurdod lleol eich hun wrth gomisiynu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, gan gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r gwerth gorau o arian Teuluoedd yn Gyntaf, gan gynnwys caffael nwyddau a gwasanaethau drwy gystadleuaeth agored lle y bo angen.

Os dewch yn ymwybodol y gallai fod angen darparu nwyddau neu wasanaethau ar draws ffiniau awdurdodau lleol, trafodwch hynny gyda'ch Rheolwr Cyfrif Teuluoedd yn Gyntaf a'r awdurdodau lleol eraill dan sylw. Efallai y bydd cyfle i awdurdodau lleol gaffael nwyddau a gwasanaethau ar y cyd er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian a darpariaeth fwy effeithlon ac effeithiol.

## **6. Gofynion Statudol**

Rhaid i chi beidio â defnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf i dalu am nwyddau/gwasanaethau sy'n rhoi rhwymedigaeth statudol ar yr Awdurdod Lleol. Ni ddylid defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf ychwaith mewn cysylltiad â gweithgareddau sydd wedi cael eu hymgorffori yn y Grant Cynnal Refeniw. Mae hyn hefyd yn cynnwys gweithgareddau a oedd yn arfer cael eu hariannu drwy Gostau Craidd Cymorth sy'n dal yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw.

Os gallwch ddangos bod y gweithgareddau rydych yn bwriadu eu darparu yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol i chi ei ddarparu'n statudol, yna gellir ystyried eu hariannu. Dylech drafod y cyfryw ychwanegedd gyda'ch Rheolwr Cyfrif cyn i chi ymrwymo i'r ddarpariaeth.

## **7. Arian Cyfatebol ar gyfer Prosiectau Ewropeaidd a Chyd-ariannu Prosiectau**

At ddibenion y ddogfen hon, mae'r term arian cyfatebol yn berthnasol i arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Ewropeaidd a heb fod yn rhai Ewropeaidd.

### **Arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop**

Gellir defnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf fel arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar yr amod y bodlonir amcanion y prosiect Teuluoedd yn Gyntaf a'r prosiect Ewropeaidd. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio arian a ddyrannwyd i brosiect Ewropeaidd penodol yn ddiweddarach fel arian cyfatebol ar gyfer prosiect arall, gan nad yw'r rheolau Ewropeaidd sy'n rheoli'r ffordd y defnyddir arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn caniatáu ar gyfer hyn.

Ar ôl i chi ddefnyddio cyfran o'ch dyraniad Teuluoedd yn Gyntaf fel arian cyfatebol ar gyfer prosiect Ewropeaidd, gallwch ddefnyddio'r hyn sy'n weddill o'r dyraniad hwnnw fel arian cyfatebol ar gyfer prosiectau Ewropeaidd eraill, ar yr amod eich bod yn dilyn y canllawiau uchod.

Dylech roi manylion unrhyw brosiectau y bwriedir defnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf fel arian cyfatebol ar eu cyfer yn y rhes briodol yn yr Adolygiad Cynnydd. Byddai methiant i wneud hynny yn golygu y byddai'r arian cyfatebol yn cael ei ystyried yn wariant anghymwys yn unol Amodau Teuluoedd yn Gyntaf.

Os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch am arian cyfatebol a phrosiectau Ewropeaidd, cysylltwch â Swyddog Ewropeaidd eich Awdurdod.

### **Ariannu prosiectau ar y cyd**

Gallwch ddefnyddio arian Dechrau'n Deg i ariannu prosiectau/gwasanaethau yn rhannol, ar yr amod eich bod yn nodi cyfraniad ariannol pob rhaglen yn glir yn eich Cynllun Gweithredu ar ddechrau'r prosiect. Dylid darparu cyfraniad ariannol pob rhaglen, a pha wasanaethau/cynhyrchion y mae pob rhaglen yn bwriadu eu prynu. Dylech hefyd ddangos yn glir fod y prosiect/gwasanaeth yn bodloni nodau ac amcanion y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a'r rhaglenni grant eraill dan sylw.

Mae'n rhaid i chi sicrhau nad oes unrhyw ariannu dwbl yn digwydd ar unrhyw adeg.

Os bydd eich Awdurdod yn rhan-ariannu prosiect gan ddefnyddio un neu fwy o raglenni grant Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, bydd rhaid i chi nodi'n glir y prosiectau hynny sy'n cael eu hariannu o'r rhaglenni hynny ar yr adroddiadau cynnydd wrth gyflwyno eich Adroddiad Cynnydd. Dylech hefyd ddarparu copiâu o'r ffurflen hawlio berthnasol a gyflwynir gennych i adrannau eraill Llywodraeth Cymru er mwyn cael eich talu.

## **8. Gwariant Cyfalaf**

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn grant refeniw. Mae'n rhaid i chi ddangos mai dim ond ar gyfer gweithredu'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ac er mwyn bod o fudd iddi y mae'r eitemau yn cael eu prynu. Ni ddylid defnyddio'r arian i brynu eitemau a ddsberthir fel arfer fel cyfalaf.

Fel arfer, mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu fel cyfalaf eitemau sy'n werth mwy na £5,000, p'un a gânt eu gwneud fel un pryniant neu fel sawl pryniant mewn un trafodyn (er enghraifft, dodrefn neu gerbydau modur). Os nad ydych yn siŵr a ddylid dosbarthu eitem o gyfarpar fel cyfalaf, cysylltwch â thîm cyllid a Teuluoedd yn Gyntaf cyn gynted â phosibl. Rhaid i chi drafod unrhyw gynnig i brynu eitem cyfalaf gyda Rheolwr eich Cyfrif Teuluoedd yn Gyntaf, a chael cymeradwyaeth **cyn** prynu unrhyw beth.

### **Caledwedd / meddalwedd TG**

Gallwch brynu caledwedd neu feddalwedd TGCh ar yr amod y gallwch ddangos ei bod yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth/prosiect penodol yn llwyddiannus fel rhan o'ch rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ac mai dim ond at y defnydd hwnnw y caiff ei ddefnyddio.

### **Adeiladau / tir / gweithgareddau seilwaith**

Ni chaniateir i chi ddefnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf i brynu adeiladau, tir nac unrhyw waith sy'n gysylltiedig â seilwaith gan gynnwys, er enghraifft, gosod ceblau TGCh ar gyfer ffonau a chyfrifiaduron.

## **9. Costau staff**

### **Swyddi presennol**

Os ydych yn bwriadu ariannu swydd(i) gan ddefnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf, mae'n rhaid i chi sicrhau bod y broses o ariannu cyflogau staff, boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn cael ei chymeradwyo gan eich Rheolwr Cyfrif Teuluoedd yn Gyntaf. Dylid ceisio'r gymeradwyaeth hon cyn gynted ag y byddwch yn penderfynu defnyddio'r arian yn y ffordd hon. Mae'n annhebygol y byddai modd defnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf i ariannu uwch swyddi yn eich awdurdod lleol, megis Cyfarwyddwyr, a gaiff eu hariannu fel arfer drwy'r Grant Cynnal Refeniw, oni allwch ddangos eu bod yn ymroi cyfran benodol o'u hamser i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Os felly, byddai angen i chi ddarparu disgrifiad swydd perthnasol hefyd.

Rhaid i swydd-ddisgrifiadau (a hysbysebion) nodi'r ffynhonnell ariannu'n glir ar gyfer pob rhan o gyflog deiliad y swydd. Mae hyn yn gymwys i bob swydd a ariennir gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

### **Swyddi newydd**

Os oes angen swyddi ychwanegol er mwyn cyflawni'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn eich Awdurdod, gellir defnyddio'r arian, yn amodol ar y canlynol:

- bod sail resymegol glir dros ddiben a swyddogaeth y swydd(i);
- bod y cyllid sy'n cael ei ddyrannu yn gymesur â swm yr amser sy'n cael ei ddyrannu i'r rôl honno; a
- bod disgrifiad swydd yn cael ei roi i'ch Rheolwr Cyfrif, a ddylai gynnwys gwybodaeth am yr arian Teuluoedd yn Gyntaf a ddosrennir i'r swydd.

Pan fo'n bosibl dylid ystyried cyflogi prentisiaid mewn swyddi gweinyddol newydd.

## 10. Dileu Swyddi

### Defnyddio Arian Teuluoedd yn Gyntaf i dalu costau dileu swyddi

Ni chaniateir i chi ddefnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf i dalu costau dileu swyddi. Dim ond er mwyn darparu'r gweithgaredd sy'n cael ei gefnogi y caniateir i chi wario arian grant Llywodraeth Cymru.

### Trefniadau trydydd parti – costau dileu swyddi

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflawni'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gomisiynu a/neu gaffael prosiectau/gwasanaethau sy'n ategu'r ddarpariaeth honno. Dylech sicrhau bod gennych delerau ac amodau priodol yn ymwneud ag unrhyw gytundebau a chontractau sy'n cael eu gwneud gyda thrydydd partiön ar gyfer cyflenwi/cefnogi'r gwasanaethau hynny.

Os ydych wedi comisiynu/caffael gwasanaeth o'r Trydydd Sector, dylech ystyried pa barti (os o gwbl) sy'n gyfrifol am unrhyw gostau dileu swyddi o dan eich trefniadau cytundebol. Nid oes unrhyw arian Teuluoedd yn Gyntaf ar gael i dalu'r cyfryw gostau. Dylech gofio'r egwyddorion a nodwyd yn y Cod Ymarfer ar gyfer ariannu'r Trydydd Sector, fel y bo'n briodol (gweler y ddolen hon:

<http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/voluntarysector/publications/code/?skip=1&lang=CY> )

Bydd gan brosiect a sefydliad a reolir yn dda gynlluniau ar waith i leihau'r effaith pan ddaw arian y llywodraeth i ben. Bydd strategaeth ymadael (neu drefniadau cynllunio olyniaeth) yn helpu'r rhai sy'n derbyn grant i reoli terfynu cyllid a sicrhau bod prosiectau'n gynaliadwy, nad yw adnoddau staff gwerthfawr, profiad ac asedau eraill yn cael eu colli, a bod gwaddol cadarnhaol yn deillio o gyfrannu arian cyhoeddus.

## 11. Rhent

Os hoffech ddefnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf i dalu am rent, dylech ddangos yn glir pam y dylai'r cyfryw gostau gael eu talu o adnoddau'r rhaglen ac nid o goffrau eich awdurdod lleol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol os byddwch yn cynnig darparu gweithgareddau cymunedol fel rhan o'ch rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (er enghraifft, canolfan gymunedol fel rhan o'ch gweithgaredd Tîm o Amgylch y Teulu arfaethedig).

Fel arfer, ni fyddem yn rhoi arian ar gyfer rhentu safle cymunedol os yw'r awdurdod lleol wedi cau un o'i safleoedd ei hunan yn yr un ardal yn ddiweddar. Ni fyddem ychwaith yn rhoi arian i dalu costau rhentu os yw'r rhain yn cael eu talu i'r Awdurdod Lleol, gan y dylai'r rhain gael eu hariannu drwy gostau canolog yr awdurdod lleol.

## **12. Gwasanaethau Adrannau Awdurdodau Lleol eraill**

Fel arfer, ni ddylid defnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf i ariannu gwasanaethau a ddarperir gan adrannau eraill yn eich awdurdod (e.e. gwasanaethau cyfreithiol a chyllid). Os ydych am ddefnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer y cyfryw wasanaethau corfforaethol, dylech drafod hyn gyda'ch Rheolwr Cyfrif Teuluoedd yn Gyntaf cyn ymrwymo i'r taliadau hyn. Byddai angen i chi ddangos pam bod angen i'r cyfryw wasanaethau corfforaethol gael eu hariannu gan arian Teuluoedd yn Gyntaf, yn hytrach na'r Grant Cynnal Refeniw.

## **13. Costau'n ymwneud â'r Prosiect**

Gall fod costau eraill y bydd angen i chi eu hariannu o bosibl gydag arian Teuluoedd yn Gyntaf, ond nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses o ddarparu'r gweithgaredd a gynorthwyr. Efallai y bydd yn bosibl defnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf i dalu'r cyfryw gostau ar yr amod y gallwch ddangos eu bod yn hanfodol i'r broses o gyflawni'r prosiect.

Isod ceir nifer o enghreifftiau o'r math hwn o gost. Efallai yr ychwanegir mwy o enghreifftiau yn ystod y rhaglen wrth i enghreifftiau newydd ddod i law i'w hystyried. Dylai'r rhain gael eu trafod gyda'r Tîm Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf cyn yr ymrwymir i roi'r arian ac, os bydd angen, dylid ceisio cymeradwyaeth gan eich Rheolwr Cyfrif o ran p'un a yw hyn yn ddefnydd priodol o arian Teuluoedd yn Gyntaf.

### **Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Gall gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu hariannu drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf os gellir dangos bod y swydd y mae'r gwiriad yn cael ei gynnal mewn perthynas â hi yn hanfodol i'r broses o gyflawni'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae hyn yn gymwys p'un a yw deiliad y swydd yn gweithio i'r gweithgaredd Teuluoedd yn Gyntaf yn llawn amser neu'n rhan amser.

Os ydych yn defnyddio gwirfoddolwyr i gyflawni elfennau penodol o'ch prosiect/gwasanaeth, mae yna bosibilrwydd y gallai gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael ei ariannu drwy un o raglenni eraill Llywodraeth Cymru drwy CGGC. Bydd angen ymchwilio i hyn a sicrhau nad oes risg o ariannu dwbl cyn yr ymrwymir i roi arian Teuluoedd yn Gyntaf.

### **Yswiriant cerbydau a phrofion MOT**

Gellir defnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf i dalu am gerbydau (gan gofio'r cyfyngiad ar gostau cyfalaf y cyfeirir ato yn Adran 8 uchod), profion MOT ac yswiriant cerbydau os gallwch ddangos bod y costau hyn yn hanfodol i'r broses o gyflawni'r rhaglen.

Os ydych yn defnyddio'r cerbyd yn rhannol ar gyfer gweithgareddau'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ac yn rhannol ar gyfer prosiect arall (nad yw'n ymwneud â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf), efallai y gallwch hawlio gwerth pro rata'r cerbyd neu'r costau cysylltiedig (e.e. prawf MOT, yswiriant ac ati) drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

### **Costau rhedeg, gorbenion a gwasanaethau cymorth Teuluoedd yn Gyntaf**

Mae nifer o elfennau'n cael eu cyfrif fel rhan o gostau rhedeg Teuluoedd yn Gyntaf, gan gynnwys y canlynol:

- costau gweinyddol sy'n ymwneud â Gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn eu cyfanrwydd, fel deunydd hyrwyddo, neu gostau trwyddedu;
- ymholiadau ac ymgynghoriadau;
- monitro a gwerthuso;
- costau hyfforddi;
- pan eu bod yn gost ychwanegol i'r Awdurdod Lleol - costau eiddo, gan gynnwys gwasanaethau perthnasol fel gwresogi, goleuo, glanhau, mân waith atgyweirio ac addurno (gweler, hefyd, baragraff 11 uchod);
- costau cyfarpar;
- costau o ran creu memorandwm dealltwriaeth a chytundebau lefel gwasanaeth ac ati rhwng partneriaid darparu
- cyfran briodol o wasanaethau canolog megis adnoddau dynol, gwasanaethau cyfreithiol, cyllid a thechnoleg gwybodaeth.

Efallai y byddwch yn gweld bod angen defnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf i dalu costau eraill nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol gyda'r weithgaredd sy'n cael ei chefnogi. Mae'n bosibl y bydd modd defnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer costau o'r fath os gallwch ddangos eu bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r rhaglen.

### **Gweithgareddau cymwys ar gyfer Cyllid**

Dylid canolbwyntio arian Teuluoedd yn Gyntaf ar gyflawni neu gynorthwyo i gyflwyni 4 elfen allweddol y rhaglen.

Byddai'n amhriodol defnyddio arian Teuluoedd yn Gyntaf at ddibenion eraill.

Mae enghreifftiau o weithgareddau anghymwys yn cynnwys:

- Gwylliau i deuluoedd neu grwpiau (ac eithrio gwylliau byr a gwasanaethau seibiant a gomisiynwyd drwy elfen Anabledd y rhaglen)
- Prynu celli neu gyfarpar i'r cartref ar gyfer unigolion sy'n cael budd o'r cynllun e.e. peiriannau golchi, microdon, soffas.
- Parseli bwyd (ac eithrio darparu byrbrydau a lluniaeth wrth ymgysylltu â theuluoedd)
- Darparu gwasanaethau statudol
- Prynu cyfarpar TGCh ar gyfer unigolion sy'n cael budd o'r cynllun

Dylai cyllid Teuluoedd yn Gyntaf ddim ond gael ei ddefnyddio i brynu celli, offer i'r cartref neu barseli bwyd mewn achosion eithriadol a dim ond os yw'ch Rheolwr Cyfrif wedi cytuno i hynny.



## Atodiad 1

### Manylion cyswllt Rheolwyr Cyfrif a Thîm Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf

#### Rheolwyr Cyfrif Refeniw Teuluoedd yn Gyntaf

Ann O'Connor	<a href="mailto:Ann.O'Connor@cymru.gsi.gov.uk">Ann.O'Connor@cymru.gsi.gov.uk</a> 0300 062 5208	Ynys Môn, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Powys a Wrecsam
Dafydd Kidd	<a href="mailto:Dafydd.Kidd@cymru.gsi.gov.uk">Dafydd.Kidd@cymru.gsi.gov.uk</a> 029 2082 5531	Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen
Sandra Owens	<a href="mailto:Sandra.owen@wales.gsi.gov.uk">Sandra.owen@wales.gsi.gov.uk</a> 029 2082 5516	Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe a Bro Morgannwg

#### Tîm Cyllid

Marie Edwards	<a href="mailto:Marie.edwards@wales.gsi.gov.uk">Marie.edwards@wales.gsi.gov.uk</a> 029 2080 1231	Uwch Reolwr Adnoddau
Andrew Carter	<a href="mailto:Andrew.carter@wales.gsi.gov.uk">Andrew.carter@wales.gsi.gov.uk</a> 029 2082 6379	Rheolwr Adnoddau
Gareth Chestney	<a href="mailto:Gareth.chestney@wales.gsi.gov.uk">Gareth.chestney@wales.gsi.gov.uk</a> 029 2082 3614	Swyddog Adnoddau

## **Atodiad 2**

### **Rheolwr Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf**

Mae llythyr Dyfarnu Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf at awdurdodau lleol yn cyfeirio at swydd Rheolwr Prosiect. Mae sawl swyddogaeth gan y deiliad, ac o ganlyniad gall cwestiynau godi ynghylch pa Swyddog Awdurdod Lleol ddylai gael y cyfrifoldeb. Ymysg y dyletswyddau mae'r canlynol:

1. Bod yn bresennol mewn cyfarfodydd gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru.
2. Derbyn dogfennau yn ymwneud â'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i'w hanfon at gydweithwyr perthnasol.
3. Cyflwyno Adroddiadau Cynnydd a ffurflenni eraill i Lywodraeth Cymru.

Yr awdurdod lleol sydd i benderfynu pa swyddog fydd yn dal y swydd ac nid yw'n adlewyrchu hierarchaeth o fewn yr awdurdod lleol.